Comisiynydd Heddlu a Throseddu
Dyfed-Powys
Police and Crime Commissioner

Mae'r ddogfen hon ar gael yn Gymraeg yn ogystal â Saesneg.

This document is available in Welsh as well as English.

Comisiynydd Heddlu a Throseddu
Dyfed-Powys
Police and Crime Commissioner

SWYDDOGOL

Heddlu • Police
DYFED-POWYS

| | |
|---|---|
| **Cyfarfod:** | **Y Bwrdd Plismona** |
| **Lleoliad:** | **Ystafell Gynhadledd ACPO** |
| **Dyddiad:** | **26 Tachwedd 2025** |
| **Amser:** | **1.30pm-3.30pm** |

| | |
|---|---|
| **Yr Aelodau:** | • Y Comisiynydd Heddlu a Throseddu, Dafydd Llywelyn (CHTh)<br>• Y Prif Gwnstabl, Ifan Charles<br>• Prif Swyddog Cyllid Dros Dro Swyddfa'r Comisiynydd Heddlu a Throseddu, Nicola Davies<br>• Cyfarwyddwr Datblygu Pobl a'r Sefydliad, Linda Williams |
| **Hefyd yn bresennol:** | • Swyddog Staff, Arolygydd Lewis Simpson (LS)<br>• Swyddog Cymorth Gweithredol SCHTh, Sophie Morgan (SM) |
| **Ymddiheuriadau:** | • Prif Weithredwr Swyddfa'r Comisiynydd Heddlu a Throseddu, Carys Morgans |

## 1. Ymddiheuriadau a chyflwyniadau

Croesawodd y Comisiynydd Heddlu a Throseddu bawb i'r cyfarfod a derbyniwyd ymddiheuriadau gan Brif Weithredwr Swyddfa'r Comisiynydd Heddlu a Throseddu, Carys Morgans. Cytunwyd bod cofnodion y cyfarfod blaenorol yn gywir.

## 2. Yr wybodaeth ddiweddaraf am y camau gweithredu o gyfarfodydd blaenorol

| Cam gweithredu rhif | Crynodeb o'r cam gweithredu | Yr wybodaeth ddiweddaraf |
|---|---|---|
| Bwrdd Plismona 094 | Yr heddlu i gadarnhau a oes modd oedi'r cynllun ailhyfforddi gyrwyr er mwyn dal i fyny ac, os felly, a oes goblygiadau ariannol i'r heddlu. | **Wedi'i gwblhau**<br><br>Ymateb gan Ditectif Brif Arolygydd Mae'r galw presennol yn cael ei gyflawni a'i ddatblygu. Lle bo galw ychwanegol, ni fydd cyrsiau'n cael eu dyrannu i'r rhain. |
| Bwrdd Plismona 095 | Yr heddlu i ystyried gwella'r gyfradd o drosglwyddiadau byw rhwng Canolfan Gyfathrebu'r heddlu a'r Uned Ymateb Rhithwir i Gam-drin Domestig. | **Wedi'i gwblhau**<br><br>Mae wedi cael ei nodi nad oedd rhai galwyr yn cael eu trosglwyddo i'r Uned Ymateb Rhithwir i Gam-drin |

| | | |
|---|---|---|
| | | Domestig oherwydd gwendidau, ac ni fyddai rhai o'r gwendidau hyn yn eu heithrio/yn eu gwneud yn anaddas ar gyfer ymateb i alwad fideo. O'r herwydd, cyhoeddwyd canllawiau newydd ar 31 Hydref 2025 fel y'u hatodir, ar gyfer trinwyr galwadau, er mwyn galluogi mwy o alwyr i gael eu trosglwyddo'n uniongyrchol i'r Uned Ymateb Rhithwir i Gam-drin Domestig. |
| Bwrdd Plismona 096 | Darparu mwy o wybodaeth ynghylch cynlluniau ar gyfer contractau tymor penodol ar gyfer yr haf nesaf i fyfyrwyr. | **Wedi'i gwblhau**<br><br>Mae hyn yn y camau cynnar iawn a bydd wrth gwrs yn dibynnu ar gyfyngiadau cyllidebol Canolfan Gyfathrebu'r Heddlu. Fodd bynnag, y cynllun fyddai hysbysebu ym mis Ionawr/Chwefror gyda'r bwriad o gael ymgeiswyr llwyddiannus yn gweithio drwy gydol mis Mehefin, Gorffennaf ac Awst. Oriau corfforaethol fyddai'r rhain (Llun-Gwener 9-5) a gallent fod yn llawn amser neu'n rhan amser i weddu i'r ymgeisydd. Byddant yn ateb y llinellau 101 opsiwn 5 a 7 nad ydynt yn rhai brys gan ganiatáu i'n staff profiadol ateb y llinellau 101 opsiwn 1 a 999 o natur mwy brys. Mae Canolfan Gyfathrebu'r Heddlu wedi siarad â'r Adran Recriwtio am hyn, a byddant yn ymgysylltu â phrifysgolion trwy ddigwyddiadau recriwtio i hyrwyddo'r swyddi dros dro hyn. |
| Bwrdd Plismona 097 | Yr heddlu i egluro ffynhonnell y cyllid grant ar gyfer datblygu | **Wedi'i gwblhau** |

| | | |
|---|---|---|
| | dangosfwrdd a fyddai'n caniatáu i'r metrigau perfformiad data gael eu hawtomeiddio gyda'r Uned Plismona Ffyrdd. | Daw'r cyllid sydd ar gael o gyllid Ymgyrch Apex a ddyrannwyd i'r heddlu ar gyfer 2025-2026.<br>Mae hyn yn cyfateb i £100,000 ac roedd i gael ei ddefnyddio ar gyfer Ymgyrch Apex.<br>Y prif ddefnydd fu ar gyfer goramser ac ymgysylltu, ond, fel mewn blynyddoedd blaenorol nid ydym erioed wedi defnyddio'r holl arian a ddarparwyd.<br>Cyflwynwyd cais i ddefnyddio cyllid dros ben eleni o dan Ymgyrch Apex i ddylunio dangosfwrdd a all gynorthwyo'r Uned Plismona Ffyrdd i allu cyflawni amcanion Strategaeth Plismona'r Ffyrdd o ran perfformiad.<br>Gan fod Ymgyrch Apex yn agwedd sylfaenol ohono, yna byddai defnyddio'r cyllid o gymorth yn hyn o beth.<br>Fe'i cyflwynwyd gennym fel rhan o'r cylch cynllunio strategol a sicrwydd gan y byddai angen cytuno ar y cynnig, oherwydd gallai'r Prif Gwnstabl, y Cyfarwyddwr Cyllid fod am ddefnyddio'r arian mewn meysydd eraill. |
| Bwrdd Plismona 098 | Yr heddlu i gadarnhau ble y caiff ad-daliadau ardrethi ystadau eu hadlewyrchu yn y cyfrifon. | **Wedi'i gwblhau**<br><br>Darparwyd memo gan yr heddlu. |
| Bwrdd Plismona 099 | Yr heddlu i ddarparu mwy o wybodaeth ynghylch croniadau goramser swyddogion yr heddlu a chydgymorth. | **Wedi'i gwblhau**<br><br>Darparwyd memo gan yr heddlu. |
| Bwrdd Plismona 100 | Yr heddlu i sgorio'r risg sy'n ymwneud ag asesiad o'r effaith ar ddiogelu data a chymryd camau gweithredu, os oes angen, i'w cynnwys ar gofrestr risg gorfforaethol yr heddlu. | **Wedi'i gwblhau**<br><br>Mae Cynghorydd Rheoli Risg a Pharhad Busnes yn cyfarfod ag uwch-arweinwyr er mwyn deall risg yn llawn a bydd yn cwblhau'r gofrestr |

| | | |
|---|---|---|
| | | risg unwaith y bydd yr holl wybodaeth wedi'i chasglu a'i hasesu. |
| Bwrdd Plismona 101 | Strategaeth Partneriaeth Weithredol ddiwygiedig i'w chyflwyno'n ôl i'r Bwrdd Plismona yn dilyn adolygiad gan y Prif Gwnstabl. | **Ar y gweill** |
| Bwrdd Plismona 102 | Y Strategaeth Bartneriaeth Weithredol ddiwygiedig i gael ei rhannu â Chyfarwyddwr Comisiynu Swyddfa'r Comisiynydd Heddlu a Throseddu yn dilyn adolygiad gan y Prif Gwnstabl. | **Ar y gweill** |
| Bwrdd Plismona 103 | Rhannu strategaeth ymgysylltu â Swyddfa'r Comisiynydd Heddlu a Throseddu. | **Ar y gweill** |
| Bwrdd Plismona 104 | Gofynnodd y Prif Gwnstabl i'r achos busnes a oedd yn ymwneud â'r gweithiwr achos Fearless gael ei gyflwyno i uwch noddwyr. | **Wedi'i gwblhau**<br><br>Mae hyn wedi'i basio i Gareth Scanlon, sydd wedi egluro nad yw'r ailraddio ar gyfer Gweithiwr Achos Fearless yn cael ei ailraddio i swydd rheolwr. Mae'r sôn am ailraddio yn cyfeirio at ailraddio'r swydd rheolwr bresennol. |
| Bwrdd Plismona 105 | Trefniadau i'w gwneud i'r Prif Gwnstabl a'r Comisiynydd Heddlu a Throseddu gyfarfod â thrigolion yn yr ardal parthed y pryderon o ran diogelwch. | **Ar y gweill** |
| Bwrdd Plismona 106 | Beth oedd y swm a ddyrannwyd (£172,000) ar gyfer Ymgyrch Valiant, a faint sydd wedi'i wario (£231,000)? | **Wedi'i gwblhau**<br>Darparwyd memo gan yr heddlu |

Bwrdd Plismona 101 - Rhoddodd y Prif Gwnstabl yr wybodaeth ddiweddaraf i'r bwrdd am y gwaith parhaus gan y Prif Gwnstabl Cynorthwyol ar Strategaeth Partneriaeth Weithredol.

**Camau gweithredu: - Strategaeth Partneriaeth Weithredol i'w chyflwyno'n ôl i'r Bwrdd Plismona ym mis Chwefror 2026.**

## 3. Pwnc ffocws:

### a) Pobl a Datblygu Sefydliadol

Rhoddodd y Cyfarwyddwr Datblygu Pobl a'r Sefydliad yr wybodaeth ddiweddaraf i'r bwrdd.

Cymeradwywyd mân newidiadau i'r Strategaeth Llesiant gan y Bwrdd Pobl, Diwylliant a Moeseg ym mis Tachwedd 2025 yn dilyn ymarfer alinio yn erbyn y Strategaeth Llesiant Genedlaethol newydd.

Cafodd yr Adroddiad ar y Bwlch Cyflog Rhywedd ar gyfer y flwyddyn yn diweddu 31 Mawrth 2025 ei gymeradwyo hefyd i'w gyhoeddi'n allanol a'i uwchlwytho ar y wefan statudol.

Cyflwynodd Leapwise ganlyniadau'r arolwg Llesiant Cenedlaethol i dîm Gweithredol y Prif Gwnstabl a Swyddfa'r Comisiynydd Heddlu a Throseddu ym mis Medi 2025. Cyflwynwyd y canlyniadau yn niwrnod cwrdd i ffwrdd yr uwch-arweinwyr ym mis Tachwedd 2025.

O ran y broses ailachredu tair-blynedd ar gyfer dyfarniad Aur Buddsoddwyr mewn Pobl, mae'r asesydd Buddsoddwyr mewn Pobl wedi cynghori bod canlyniadau'r arolwg cychwynnol yn gadarnhaol. Mae'r asesydd bellach yn dadansoddi canlyniadau er mwyn pennu themâu trafod ar gyfer cymysgedd o grwpiau ffocws wyneb yn wyneb a rhithwir. Cyn gynted ag y bydd canlyniadau'r arolwg a'r grwpiau ffocws ar gael, byddant yn cael eu hychwanegu at yr adborth a gasglwyd o bob ffynhonnell drwy gydol 2025 e.e. Arolwg Llesiant Cenedlaethol, sesiynau deialog digidol diweddar a hwyluswyd gan brif swyddogion, digwyddiadau Disgwyliad ac Ymgysylltu, a chyfweliadau Dweud ac Aros. Bydd ein cynllun gweithredu Dywedoch Chi, Gwnaethon Ni yn cael ei ddiweddaru i fynd i'r afael â'r holl adborth a'i lansio mewn sioeau teithiol prif swyddogion a fydd yn dechrau ym mis Ionawr 2026.

Yn ystod diwrnod cwrdd i ffwrdd yr uwch-arweinwyr, neilltuwyd y prynhawn i annog uwch-arweinwyr i ystyried diwylliant yr heddlu, y cynnydd a wnaed hyd yma a'u rôl wrth ymdrin ag aelodau'r tîm sy'n ymddwyn yn negyddol ac yn effeithio ar forâl cydweithwyr. Gofynnwyd i gyfranogwyr gynorthwyo i gwblhau map Taith Ein Diwylliant yr heddlu drwy ddarparu manylion y gweithgareddau a gynhaliwyd yn eu hardaloedd ers 2021, y flwyddyn sylfaenol y cytunwyd arni. Dilynwyd hyn gan weithdy Seicoleg Gadarnhaol Gymhwysol rhyngweithiol a gafodd groeso cynnes ac a hwyluswyd gan Leaderful Action ar ran Academi Wales.

Trafododd y bwrdd yr angen am barhad a chysondeb yn y negeseuon o fewn yr heddlu a nododd y Prif Gwnstabl bwysigrwydd cysondeb yn yr arddull arweinyddiaeth a'r negeseuon. Trafododd y bwrdd gyflwr allanol a mewnol rhai gorsafoedd o fewn yr heddlu.

**Cam gweithredu: Y Prif Gwnstabl i drafod cyflwr mewnol ac allanol gorsafoedd o fewn ardal yr heddlu gyda'r pennaeth ystadau.**

## 4. Cwestiynau i'r Prif Gwnstabl

### a) A allai'r Prif Gwnstabl roi'r wybodaeth ddiweddaraf am y camau a gymerwyd i fynd i'r afael â'r meysydd a nodwyd fel bylchau ar gyfer Heddlu Dyfed-Powys yn ymateb y Prif Gwnstabl i adroddiad Adolygiad Cyflym Cyfran 2 o blismona anhrefn cyhoeddus (a dderbyniwyd gan Swyddfa'r Comisiynydd Heddlu a Throseddu ar 11 Mehefin 2025).

Nodwyd y meysydd canlynol fel bylchau yn yr ymateb i Gyfran 2 o'r Adolygiad Cyflym:

A) Mae gan yr heddlu ddau ymchwilydd rhwydwaith [cyfrifiadurol] sydd â chapasiti cyfyngedig o ystyried y rôl. Mae capasiti cyfyngedig / dim capasiti i sganio am fygythiadau anhysbys nad ydynt yn cael eu codi trwy guddwybodaeth a gwybodaeth. Mae hwn yn fwlch yn y cynllun casglu gwybodaeth.

B) Mewn achosion lle mae ardaloedd mewn perygl o ran y drefn gyhoeddus yn cael eu nodi a'u rheoli fel rhai risg isel a lle mae lleiafswm o weithgarwch heddlu yn digwydd, a dosbarthir y lefel rheoli fel goddefol ac arsylwi gan fod y gweithgarwch yn heddychlon. Bydd Adran Cuddwybodaeth yr Heddlu yn casglu'r data hwn yn wythnosol ac yn ei rannu â staff yr uned reoli sylfaenol er mwyn sicrhau bod timau plismona ac atal bro yn ymgysylltu, a bod asesiad tensiwn cymunedol yn cael ei ystyried (nid yw'r broses hon ar waith eto ond bydd yn cael ei hargymell yn dilyn yr asesiad hwn).

C) Mae'r ddau ymchwilydd rhwydwaith yn bwriadu ymweld â'r Uned Troseddau Cyfundrefnol Ranbarthol er mwyn sefydlu pa atebion technegol, platfformau a/neu feddalwedd sydd ar gael i gynorthwyo'r heddlu yn y maes busnes hwn. Mae timau cydgysylltu'r awdurdodau lleol wedi bod o gymorth i'r heddlu yn y gorffennol, gan eu bod hefyd yn cynnal sganio ar-lein o amgylch eu hardal fusnes. Ar hyn o bryd mae datrysiad technegol cyfyngedig ar gael i ymchwilwyr rhwydwaith cyfrifiadurol yn y maes hwn ond byddant yn sganio ac yn ymchwilio trwy blatfformau ar-lein os bydd gwybodaeth neu guddwybodaeth yn cael ei hadrodd am faterion anhrefn. Mae hwn yn fwlch yng ngallu a chapasiti yr heddlu.

Ar hyn o bryd, mae gan yr adran ddau aelod o staff cyfwerth ag amser llawn ac mae'r galw sy'n gysylltiedig â phrotestiadau yn isel o'i gymharu ag agweddau eraill ar waith yr adran. Nid yw'r heddlu wedi cael ei ddal yn ddiarwybod gan unrhyw brotest neu rave lleol ers cyfnod adolygu Ymgyrch Navette. Ymdopodd ymchwilwyr y rhwydwaith yn rhagorol yn ystod Ymgyrch Cambrian / Stradey a darparu gwasanaeth rhagorol. Mae'r heddlu'n parhau i fwynhau cefnogaeth dda gan staff ehangach a'n cymunedau er mwyn sicrhau ein bod yn cael ein harwain gan guddwybodaeth a bod gan staff heddlu eraill y sgiliau angenrheidiol a gellir galw arnynt pan fo angen.

Ar hyn o bryd nid oes unrhyw atebion technegol ymarferol i'r heddlu wella gallu ymchwilwyr rhwydwaith, ond rhagwelir y bydd hyn yn newid. Mae'r system flaenorol ar gyfer sganio'r amgylchedd digidol (Cosain) wedi dod i ben, ac mae staff yr heddlu yn gymwys iawn wrth sganio ar ôl iddynt gael amcanion. Mae canllawiau cymharol newydd sy'n cyfyngu ar ddefnyddio Awdurdod Gwyliadwriaeth Gyfeiriedig ar gyfer gweithgarwch sy'n gysylltiedig â phrotestiadau (oni bai bod anhrefn difrifol yn cael ei ragweld). Mae hyn wedi dod o'r adolygiadau plismona cudd hanesyddol. Roedd y canllawiau'n rhwystro Heddlu Dyfed-Powys yn ystod protestiadau Ymgyrch Cambrian / Strade ac yn cyfyngu ar yr hyn y gallai ymchwilwyr rhwydwaith ei wneud.

Mae timau cydgysylltu'r awdurdodau lleol yn cynorthwyo i sganio ar-lein ac mae staff ymddygiad gwrthgymdeithasol a diogelwch cymunedol yr awdurdodau lleol yn cynorthwyo ymchwilwyr Heddlu Dyfed-Powys. Mae prosesau rhannu partneriaeth da yn bodoli rhwng yr heddlu ac awdurdodau lleol a gellir lledaenu unrhyw wybodaeth a dderbynnir yn unol ag argymhelliad 1. Rhennir gwybodaeth gan asiantaethau eraill drwy Ffurflen Cuddwybodaeth Partneriaeth a byddai'n dod yn uniongyrchol i flwch derbyn Adran Cuddwybodaeth yr heddlu ac mewn achosion brys trwy Reolwr Digwyddiadau'r Heddlu a'i roi ar STORM. Yn aml iawn, mae staff yr heddlu yn cael gwybod am wybodaeth gymunedol o ystyried eu cysylltiadau lleol ac mae hyn yn helpu'r heddlu i baratoi yn unol â hynny.

O ran Cydweithio/Uned Troseddau Cyfundrefnol Ranbarthol, mae'r Ditectif Brif Uwcharolygydd Dros Dro R Evans wedi trefnu i gyfarfod â Phennaeth Tarian a bydd hefyd yn codi ymchwiliadau rhwydwaith yng nghyfarfodydd penaethiaid troseddau sydd i ddod.

Mae'r heddlu'n cydweithio â heddluoedd eraill Cymru yn ystod cyfnodau o alw mawr neu ddigwyddiadau arwyddocaol (e.e. Ymgyrch Navette) a gellir cael cefnogaeth ehangach gan yr Uned Troseddau Cyfundrefnol Ranbarthol a thimau cenedlaethol (e.e. TOEX) trwy dasgio trwy'r Grŵp Cuddwybodaeth Rhanbarthol.

Mae'r heddlu'n deall y bydd angen i'r gweithlu ail-lunio yn y blynyddoedd i ddod i helpu i reoli'r galw ar-lein ac ymchwilio i gyfleoedd. Gyda Deddf Diogelwch Ar-lein 2023, mae'r heddlu eisoes wedi gweld rhai manteision gan fod cyfyngiadau oedran ar waith ar lwyfannau ar-lein bellach.

Mewn ymateb i Gyfran 2, dyma ymateb yr heddlu i Argymhelliad 3:

- Bydd gan Ganolfan Gwybodaeth a Chydlynu Ranbarthol Cymru ofynion

cymorth cydfuddiannol ar gyfer pob heddlu/rhanbarth wrth weithredu pan fydd angen mobileiddio cenedlaethol.

- Cynhelir briffiau i bob uwch-swyddog ymchwilio yn ystod y 12 mis nesaf yng nghynhadledd yr Uwch Adran Ymchwilio i Droseddau.
- Bydd cynllun ymchwilio i drefn gyhoeddus Heddlu Dyfed-Powys yn cael ei greu a'i ddosbarthu i'r adran Trefn Gyhoeddus a Diogelwch y Cyhoedd/Cynllunio Gweithrediadau i'w gadw a'i ddefnyddio wrth gyflwyno cynllun mobileiddio cenedlaethol.
- Bydd canllawiau'n cael eu hymgorffori yng nghynllun ymchwilio i'r drefn gyhoeddus Heddlu Dyfed-Powys i sicrhau bod pob heddlu'n cynnal sesiynau ôl-drafodaeth strwythuredig o unigolion dan amheuaeth a throseddwyr yn rheolaidd, er mwyn cael tystiolaeth neu gudd-wybodaeth bosibl am anhrefn.

### b) Beth yw asesiad y Prif Gwnstabl o barodrwydd Heddlu Dyfed-Powys ar gyfer digwyddiadau o anhrefn cyhoeddus yn y dyfodol?

Bu cynnydd diweddar yn nifer y comanderiaid ac arbenigwyr sydd wedi'u hyfforddi mewn trefn gyhoeddus. Mae nifer o gomanderiaid wedi cael eu hyfforddi ac, ar ôl iddynt gael eu cymeradwyo trwy adolygiad gan gymheiriaid, bydd gan yr heddlu bedwar comander aur, pedwar comander arian a pump comander efydd gydag un comander efydd yn ymddeol yn y 12 mis nesaf, ac mae'n debygol y bydd rhywun yn cael ei benodi yn ei le.

Mae cysylltiad cydgymorth drwy'r Ganolfan Gwybodaeth a Chydlynu Ranbarthol Cymru a gall ddefnyddio cydgymorth mewn achosion prin lle bydd problemau trefn gyhoeddus yn rhagori ar gapasiti a gallu mewnol.

## 5. I'w nodi

### a) Yr wybodaeth ddiweddaraf gan y Prif Gwnstabl

Rhoddodd y Prif Gwnstabl adroddiad ar yr wybodaeth ddiweddaraf i'r bwrdd ynghylch digwyddiadau a gweithrediadau a oedd wedi digwydd ers y cyfarfod blaenorol. Mae'r adroddiad yn cynnwys yr wybodaeth ddiweddaraf am waith heddlu da gan gynnwys digwyddiad yn ymwneud ag Ysgol Gynradd Dafen a digwyddiad ym Marina Aberdaugleddau yn ogystal â diweddariadau gweithredol a sefydliadol sylweddol.

Mae'r heddlu hefyd wedi derbyn Gwobr Gweithio Gyda'n Gilydd Ymddiriedolaeth Alice Ruggles 2025 ac yng ngwobrau Cytundeb Rhannu Gwybodaeth Bersonol Cymru, enillodd yr heddlu'r Wobr Rhagoriaeth Cydweithredol.

### b) Yr wybodaeth ddiweddaraf gan y Comisiynydd Heddlu a Throseddu

Rhoddodd y CHTh ddiweddariad byr ar ei weithgareddau a'r cyfarfodydd a gynhaliwyd ers y cyfarfod diwethaf, gan gynnwys noson agored i gynghorwyr, cynnal gweminar wythnos ymwybyddiaeth o droseddau casineb a diwrnod ymgysylltu cymunedol diogelwch ffyrdd gyda chyfarfod â Gan Bwyll a thimau plismona ac atal bro Sir Gaerfyrddin, a mynychu briffio stryd ar e-feiciau a e-sgwteri.

### c) Y newyddion diweddaraf am fodel gweithredu'r heddlu

Rhoddodd yr Uwch-swyddog Cyfrifol am Adolygiad yr Heddlu, Gareth Scanlon, yr wybodaeth ddiweddaraf i'r bwrdd ar fodel gweithredu'r heddlu.

Mae Rheolwr Rhaglen yr Adran Ymchwilio i Droseddau wedi cael ei secondio i dîm model gweithredu'r heddlu a bydd yn gyfrifol am gynnal gwerthusiadau ôl-weithredol o bob ffrwd waith blaenorol Adolygiad yr Heddlu a model gweithredu'r heddlu. Bydd hefyd yn darparu cefnogaeth rheoli prosiectau i'r Prif Uwcharolygydd ynghylch ffrwd waith Rhifau Gweithredu Dymunol.

O ran yr wybodaeth ddiweddaraf am y rhaglen cymysgedd gweithlu, roedd gwaith yn parhau i gyflawni uchelgais y sefydliad i recriwtio 50 o aelodau staff heddlu cyfwerth ag amser llawn er mwyn caniatáu i 50 o swyddogion heddlu cyfwerth ag amser llawn gael eu rhyddhau o 'swyddogaethau cefn swyddfa' i blismona rheng flaen. Nodwyd bod dwy ffrwd ariannu yn cynnal y fenter hon:

- Gwarant Plismona Bro: 33 swyddog heddlu cyfwerth ag amser llawn i dimau plismona ac atal bro
- Cyllid Praesept: 17 swyddog heddlu cyfwerth ag amser llawn i dimau ymateb yr heddlu mewn iwnifform

Ar hyn o bryd, mae 55% (18 swydd cyfwerth ag amser llawn) o gyfanswm recriwtio staff yr heddlu i alluogi cymysgedd gweithlu ar gyfer y Gwarant Plismona Bro wedi'i gyflawni. Mae'r 18 swyddog cyfwerth ag amser llawn hyn yn cyfrif am 36% o gyfanswm recriwtio staff yr heddlu sydd eu hangen er mwyn cyflawni'r cyfanswm twf o 50 swyddog cyfwerth ag amser llawn mewn timau plismona ac atal bro a thimau ymateb mewn lifrau o'r ddwy ffrwd ariannu. Roedd sawl proses recriwtio yn mynd rhagddynt, ac roedd rhai eto i'w cychwyn o ganlyniad i sawl her.

Ochr yn ochr â hyn, mae proses datganiadau o ddiddordeb ar gyfer cynyddu niferoedd cwnstabliaid mewn timau plismona ac atal bro wedi cau'n ddiweddar gan arwain at 40 o ymgeiswyr. Mae hyn yn cael ei weinyddu ar hyn o bryd gan Adnoddau Dynol, model gweithredu'r heddlu a chomandwyr unedau rheoli sylfaenol er mwyn sicrhau'r twf gofynnol ac ar yr un pryd yn ôl-lenwi unrhyw swyddi gwag sy'n bodoli eisoes. Roedd hyn yn cael ei reoli'n agos i leihau'r risg bod yr ymarfer hwn yn effeithio'n andwyol ar niferoedd tîm ymateb yr heddlu mewn lifrai.

Y prif her sy’n wynebu’r rhaglen hon yw prosesau recriwtio, a’r cyflymder angenrheidiol ar gyfer hynny, er mwyn bodloni amserlenni grantiau. Roedd hyn yn cael ei waethygu gan bwysau capasiti, a/neu amseroedd rhagarweiniol prosesau, mewn meysydd a oedd yn cynorthwyo’r gwaith recriwtio, er enghraifft (heb fod yn hollgynhwysfawr):

- Amseroedd rhagarweiniol / prosesu cyn penodi, fetio a gwiriad meddygol.
- Ail flaenoriaethu a chyflwyno hyfforddiant cyflym i staff yr heddlu newydd eu recriwtio.
- Diddordeb (a llwyddiant) mawr gan staff presennol yr heddlu (yn aml o swyddogaethau hollbwysig eraill) ar gyfer rolau cymysgedd gweithlu staff yr heddlu newydd eu hysbysebu yn unol â’r Gwarant Plismona Bro. Nodwyd bod hyn yn gwaethygu’r heriau recriwtio oherwydd yr angen am ragor o recriwtio a chyfnodau hyfforddi i lenwi’r bylchau a adawyd gan ymgeiswyr mewnol llwyddiannus.

### d) Yr wybodaeth ddiweddaraf am yr asesiad o’r effaith ar ddiogelu data

Darparodd Debby Jones bapur diweddaru i’r bwrdd ynghylch y broses asesiad o'r effaith ar ddiogelu data.

Yn dilyn trafodaethau mewnol, bydd y Swyddog Diogelu Data a’r Cynghorydd Diogelu Data yn adolygu’r ‘set cwestiynau’ a’r broses benderfynu sy’n gysylltiedig â thempled/proses asesiad o'r effaith ar ddiogelu data electronig arfaethedig. Mae hyn er mwyn sicrhau ei fod yn diwallu anghenion prosesau llywodraethu gwybodaeth, deddfwriaeth diogelu data, cyfrifoldebau cyfreithiol y rheolydd data a phrosesau eraill sy’n deillio o’r broses asesiad o'r effaith ar ddiogelu data. Byddai proses derfynol yr asesiad o’r effaith ar ddiogelu data y cytunwyd arni yn cael ei phrofi cyn i staff maes busnes rheoli gwybodaeth ei rhoi ar waith, staff a fydd yn defnyddio’r broses yn ddyddiol. Ochr yn ochr â hyn, bydd gofynion y cynllun gweithredu yn cael eu datblygu.

Yn ddiweddar, mae Tîm Cytundeb Rhannu Gwybodaeth Bersonol Cymru wedi datblygu porth rhannu gwybodaeth electronig ar gyfer prosesu protocolau rhannu gwybodaeth. Rhagwelir y bydd y ganolfan hon yn cael ei hymestyn i brosesu asesiadau o'r effaith ar ddiogelu data drwy ddatblygu templed asesiad o'r effaith ar ddiogelu data canolog ar gyfer Cymru gyfan. Fel aelodau o Fwrdd Rheoli Cytundeb Rhannu Gwybodaeth Bersonol Cymru, bydd y Swyddog Diogelu Data a’r Cynghorydd Diogelu Data yn cydweithio’n agos â Thîm Cytundeb Rhannu Gwybodaeth Bersonol Cymru wrth i ddatblygu’r templed/proses asesiad o'r effaith ar ddiogelu data.

Mae cyfarfod misol ar gyfer blaenoriaethu asesiad o'r effaith ar ddiogelu data a fynychir gan y Dirprwy Prif Gwnstabl, y Prif Gwnstabl Cynorthwyol, y Rheolwr Caffael a’r Swyddog Diogelu Data yn parhau. Caiff asesiadau o'r effaith ar ddiogelu data eu blaenoriaethu yn unol â rhestr flaenoriaethu. Mae aelodau’n goruchwylio cynnydd trwy sianel Teams.

Mae cyfarfod wedi’i drefnu ar gyfer 19 Tachwedd, rhwng y Tîm Caffael a’r Tîm Rhannu Gwybodaeth/Diogelu Data er mwyn trafod prosesau a’r effaith y mae pob maes gwaith yn ei chael ar y llall, mewn perthynas ag asesiadau o'r effaith ar ddiogelu data, contractau prosesu data, protocolau rhannu gwybodaeth ac ati.

Mae’r adolygiad o asesiadau o'r effaith ar ddiogelu data hanesyddol, contractau prosesu data ac ati yn parhau i fod wedi’i ohirio oherwydd yr angen i flaenoriaethu gwaith oherwydd gofynion sy’n cystadlu am flaenoriaeth o fewn yr adran.

Mae Tîm IMBA maes busnes rheoli gwybodaeth wedi cwblhau proses Fframwaith Atebolrwydd Swyddfa’r Comisiynydd Gwybodaeth, sydd wedi’i chynllunio i helpu sefydliadau i asesu eu cydymffurfedd eu hunain â gofynion allweddol o dan gyfraith diogelu data. Roedd hyn yn cynnwys adran ar risgiau ac asesiadau o’r effaith ar ddiogelu data.  Mae adroddiad i’w baratoi.

Mae’r Cynghorydd Diogelu Data yn aelod o’r Grŵp Asesu Syniadau Digidol a’r Grŵp Prosiectau a Chyllido ac yn rhoi cyngor ar asesiadau o'r effaith ar ddiogelu data, contractau prosesu data, protocolau rhannu gwybodaeth ac ati i’r ddau grŵp, gan godi ymwybyddiaeth o ofynion cyfreithiol.

Mae’r Rheolwr Gwybodaeth/Swyddog Diogelu Data wedi bod yn rhan o drafodaethau gyda Swyddogion Diogelu Data eraill Cymru a Chydweithrediad Heddlu Cymru gyda’r bwriad o ehangu’r cydweithio presennol sy’n digwydd rhwng heddluoedd Cymru. Mae sianel Teams newydd ar gyfer swyddogion diogelu data heddluoedd Cymru wedi’i datblygu.  Mae’r Rheolwr Gwybodaeth wedi awgrymu adnodd hyfforddi llywodraethu gwybodaeth a rennir a allai gynnwys hyfforddiant ar y broses asesiad o'r effaith ar ddiogelu data ac ati i staff allweddol, Perchnogion Asedau Gwybodaeth ac ati ar draws y pedwar Heddlu. Gallai hyn arbed costau gan y gall hyfforddiant allanol ym maes llywodraethu gwybodaeth fod yn gostus. Mae Cydweithrediad Heddlu Cymru wedi gofyn i’r Rheolwr Gwybodaeth ddarparu gofynion deddfwriaeth cyfredol mewn perthynas ag asesiadau o'r effaith ar ddiogelu data i Cydweithrediad Heddlu Cymru.

Mae trafodaethau’n parhau gyda’r bwriad o gynnwys y gwaith sy’n gysylltiedig ag asesiadau o'r effaith ar ddiogelu data ar y Gofrestr Risg Gorfforaethol.

**Heriau’r dyfodol:**

- Mae diwygiadau i ddeddfwriaeth diogelu data yn dilyn cyflwyno Deddf Data (Defnydd a Mynediad) 2025 i’w gweithredu. Cafwyd cyngor gan Gyngor Cenedlaethol Penaethiaid yr Heddlu, yn nodi mwy na 200 o newidiadau sy’n effeithio ar wasanaeth yr heddlu. Mae dull o olrhain gweithredoedd wedi’i gynhyrchu, yn seiliedig ar ganllawiau Cyngor Cenedlaethol Penaethiaid yr Heddlu. Dylai’r Swyddog Diogelu Data, y Cynghorydd Diogelu Data a’r Rheolwr Cofnodion Datgelu a Rhyddid Gwybodaeth weithio drwy’r dull o olrhain gweithredoedd gan sicrhau bod newidiadau i bolisi ac ati yn cael eu dilyn. Mae’r trafodaethau cychwynnol i ddechrau yn ystod yr wythnos sy’n dechrau 1 Rhagfyr 2025. Mae’n

debygol y bydd hwn yn ddarn sylweddol o waith i'r heddlu ac ar wahân i Swyddfa'r Comisiynydd Heddlu a Throseddu.

- Mae heriau llywodraethu gwybodaeth a bygythiadau diogelwch gwybodaeth sy'n dod i'r amlwg o ganlyniad i ddeallusrwydd artiffisial, seiber-ymosodiadau, teilwra cymdeithasol a'r gadwyn gyflenwi yn parhau.

- Heriau a llwyth gwaith sy'n gysylltiedig â chydymffurfiaeth yr heddlu â fframwaith Asesiad Diogelwch ar gyfer Plismona ar gyfer Tîm IMBA (maes busnes rheoli gwybodaeth), TGCh ac adrannau eraill sy'n cyfrannu at y fframwaith.

- Mae'r Tîm Cytundeb Rhannu Gwybodaeth Bersonol Cymru yn gweithio'n agos gyda Swyddfa'r Comisiynydd Gwybodaeth i sefydlu Cod Ymddygiad Rhannu Gwybodaeth o dan ddeddfwriaeth Diogelu Data (Erthygl 40 GDPR y DU). Os bydd hyn yn cael cymeradwyaeth Swyddfa'r Comisiynydd Gwybodaeth, bydd hyn yn arwain at fwy o heriau a llwyth gwaith ychwanegol i sefydliadau sydd wedi ymuno â'r cytundeb gan gynnwys yr heddlu a Swyddfa'r Comisiynydd Heddlu a Throseddu.

## e) Atal/Ymyrraeth/Ymgysylltu: Plant a Phobl Ifanc

Cafodd y bwrdd adroddiad diweddaru ynghylch Atal, Ymyrraeth, Ymgysylltu ar gyfer Plant a Phobl Ifanc. Cymeradwywyd pob rôl ym mis Gorffennaf 2025, a chrewyd proffiliau rôl gan y tîm prosiect o fewn wythnos i'w cymeradwyo a'u cyflwyno i Adnoddau Dynol ar gyfer gwerthuso swyddi ar 9 Awst 2025.

Ar hyn o bryd, mae dwy rôl wedi cael eu gwerthuso, sef swyddi'r dadansoddwr a'r hyfforddwr. Mae ffurflen gais am swydd wag wedi'i chyflwyno ar gyfer y ddwy rôl.

Mae nifer o weithdai ar y gweill er mwyn ffurfioli prosesau atgyfeirio ac adnabod yn rhagweithiol blant a phobl ifanc a fyddai'n elwa o'r gwasanaethau ymyrraeth ac atal a fydd yn cael eu darparu fel rhan o'r ffrwd waith hon.

Mae gwaith pellach yn mynd rhagddo i ddatblygu'r pecyn hyfforddi i'r hyfforddwr ei gyflwyno ledled yr heddlu a phecynnau i'r swyddogion addysg bellach eu cyflwyno i golegau a dosbarthiadau chwech.

- Mae nifer o ddigwyddiadau ymgysylltu wedi digwydd dros y mis diwethaf gydag arweinwyr y Gwasanaeth Cyfiawnder Ieuenctid.
- Mae'r prosiect eiliadau hygyrch yn y ddalfa i fod i weithredu o fewn y saith niwrnod nesaf.
- Mae pwyntiau cyswllt unigol ymgysylltu ar gyfer timau plismona ac atal bro wedi'u dyrannu i bob sefydliad addysg bellach neu chweched dosbarth yn yr heddlu.

Mae cynnydd y prosiect hwn bellach yn dibynnu'n fawr ar brosesau i'w datblygu gan Adnoddau Dynol a Chyllid, h.y. gwerthuso swyddi, cymeradwyaethau ffurflen gais am swydd wag, hysbysebu'r rolau a recriwtio.

**Camau gweithredu: - Yr heddlu i ddarparu amserlen ar gyfer gweithredu a lansio'r prosiect Atal, Ymyrryd, Ymgysylltu ar gyfer Plant a Phobl Ifanc.**

Cododd y CHTh y posibilrwydd o sefydlu grŵp strategol dan gadeiryddiaeth y CHTh gyda'r heddlu dros gyfiawnder ieuenctid.

**Camau gweithredu: - I'r Comisiynydd Heddlu a Throseddu drafod â thîm Gweithredol Swyddfa'r Comisiynydd Heddlu a Throseddu sefydlu grŵp strategol gyda'r heddlu dan gadeiryddiaeth y Comisiynydd Heddlu a Throseddu ar gyfer cyfiawnder ieuenctid.**

Gofynnodd y Prif Gwnstabl am i gylch gorchwyl gael ei ddarparu i brif swyddogion cyn sefydlu'r grŵp arfaethedig i'w adolygu a chael adborth.

### 6) Unrhyw fater arall

#### a) Ymateb y Prif Gwnstabl i'r arolygiad ar y cyd gan HMIP ac Arolygiaeth Cwnstabliaeth a Gwasanaethau Tân ac Achub Ei Fawrhydi: Effeithiolrwydd dargyfeirio plant o'r system cyfiawnder troseddol: diwallu anghenion, sicrhau diogelwch, ac atal aildroseddu.

Roedd y Comisiynydd Heddlu a Throseddu yn ddiolchgar i'r Prif Gwnstabl am yr ymateb i'r adroddiad a byddai ymateb y Comisiynydd Heddlu a Throseddu yn cael ei rannu â'r heddlu a'i gyhoeddi maes o law.

#### b) Ymateb y Prif Gwnstabl i arolygiad Arolygiaeth Cwnstabliaeth a Gwasanaethau Tân ac Achub Ei Fawrhydi ar effeithiolrwydd ymateb yr heddlu a chyrff gorfodi'r gyfraith i gamfanteisio'n rhywiol ar blant gan grwpiau.

Roedd y Comisiynydd Heddlu a Throseddu yn ddiolchgar i'r Prif Gwnstabl am yr ymateb i'r adroddiad a byddai ymateb y Comisiynydd Heddlu a Throseddu yn cael ei rannu â'r heddlu a'i gyhoeddi maes o law.

| Cam gweithredu rhif | Crynodeb o'r camau gweithredu o gyfarfod 21 Hydref 2025 | I'w symud ymlaen gan |
|---|---|---|
| **Bwrdd Plismona 107** | Strategaeth Partneriaeth Weithredol i'w chyflwyno'n ôl i'r Bwrdd Plismona ym mis Chwefror 2026. | Heddlu |
| **Bwrdd Plismona 108** | Y Prif Gwnstabl i drafod cyflwr mewnol ac allanol gorsafoedd o fewn ardal yr heddlu gyda'r Pennaeth Ystadau. | Heddlu |

| | | |
|---|---|---|
| **Bwrdd Plismona 109** | Yr heddlu i ddarparu amserlen ar gyfer gweithredu a lansio'r prosiect Atal, Ymyrryd, Ymgysylltu ar gyfer Plant a Phobl Ifanc. | Heddlu |
| **Bwrdd Plismona 110** | Bydd y CHTh i drafod gyda thîm Gweithredol Swyddfa Comisiynydd Heddlu a Throseddu sefydlu grŵp strategol gyda'r heddlu dan gadeiryddiaeth y CHTh ar gyfer cyfiawnder ieuenctid. | SCHTh |

DIWEDD